OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 2887 (Cy. 309)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Tachwedd 2011* |
| *Yn dod i rym* | *7 Rhagfyr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470 (Caerdydd i Langurig) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”) drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84 (1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Gwnstabl De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn—

**1.** Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Rhagfyr 2011. Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2011.

**2.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

28 Tachwedd 2011

*G R Morgan*
G Morgan
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; Amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

**Darnau o Gyfnewidfa Coryton a'r lôn ar wahân o'r M4 tua'r dwyrain i'r A470 tua'r gogledd.**

(i) Y darn hwnnw o Gyfnewidfa Coryton sy'n ymestyn o bwynt ar drwyn slipffordd ymuno'r A470 hyd at bwynt 120 metr i'r gogledd o'r pwynt hwnnw.

(ii) Y darn hwnnw o'r lôn ar wahân sy'n ymestyn o bwynt ar ddiwedd slipffordd ymadael Traffordd yr M4 tua'r dwyrain hyd at y pwynt lle mae'n ymuno â slipffordd ymuno'r A470 tua'r gogledd.